# Uned 5: Gwaith Tîm, Arweinyddiaeth a Chyfathrebu yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol

## Canllawiau cyflwyno

### Mynd i’r afael â’r uned

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i’r dysgwyr astudio deinameg adeiladu tîm ac arwain tîm, cymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin tîm, a hefyd ddysgu am y dulliau cyfathrebu allweddol a ddefnyddir gan y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Bydd angen i’r dysgwyr edrych ar fanteision timau a gwahanol arddulliau arwain, ac ymchwilio i’r technegau a’r theorïau a ddefnyddir ar gyfer datblygu timau effeithiol yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Bydd angen i’r dysgwyr gyflawni tasgau tîm a gallu arddangos defnydd o ddulliau cyfathrebu a fydd yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau gwaith tîm ac arwain effeithiol.

Gallech gyflwyno’r uned hon gan ddefnyddio cyfuniad o theori (i gyflwyno’r dysgwyr i’r topigau a restrir yng nghynnwys yr uned), ymweliadau, siaradwyr gwadd (i alluogi’r dysgwyr i gymhwyso’r cysyniadau damcaniaethol y maent wedi’u dysgu) a sesiynau ymarferol lle gall y dysgwyr roi’r theori a ddysgwyd ar waith.

### Cyflwyno’r nodau dysgu

**Nod dysgu A: Archwilio arddulliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol**

Yn achos Nod dysgu A, gallai’r dysgwyr archwilio’r gwahaniaeth rhwng grŵp a thîm. Mae modd defnyddio trafodaethau dosbarth i ganfod beth sy’n creu grŵp neu dîm, y gwahanol dimau a geir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, a sut mae arddulliau arweinyddiaeth yn cael eu cymhwyso mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Dylid rhoi cyfle i’r dysgwyr gyflawni sesiynau ymarferol lle gallan nhw fod yn rhan o weithgareddau meithrin tîm, dod yn arweinydd, a hefyd gyfranogi fel aelod o’r tîm. Dylai’r dysgwyr gael profiad o weithio fel rhan o dîm effeithiol.

Bydd y dysgwyr yn elwa o’r cyfle i weithio mewn parau a thrafod ac ymchwilio i arddulliau arweinyddiaeth a nodweddion timau effeithiol.

**Nod dysgu B: Archwilio theorïau a thechnegau a ddefnyddir ar gyfer datblygu timau effeithiol yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol**

Yn achos y nod dysgu hwn, bydd y dysgwyr yn elwa o’r cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol fydd yn caniatáu iddynt weithio mewn grwpiau bach i gyflawni tasgau meithrin tîm. Mae angen i’r dysgwyr fedru profi ac arddangos defnydd o wahanol dechnegau adeiladu tîm.

Gallech ddefnyddio cyflwyniadau dan arweiniad athro i drosglwyddo gwybodaeth i’r dysgwyr am theorïau datblygu tîm.

Mae modd defnyddio trafodaethau dosbarth i rannu syniadau a gwybodaeth am y rhwystrau i waith tîm effeithiol, a sut mae modd goresgyn rhwystrau er mwyn medru sefydlu tîm effeithiol.

Gallech drefnu ymweliadau â chanolfan addysg gwasanaeth amddiffyn priodol sydd â gwisg swyddogol, lle gallai’r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a gallu nodi ac ymdrin ag unrhyw rwystrau i waith tîm effeithiol.

 © Pearson Education Limited 2022

**Nod dysgu C: Arddangos defnydd o ddulliau a systemau cyfathrebu sy'n berthnasol i'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol**

Yn achos y nod dysgu hwn, bydd y dysgwyr yn elwa o drafodaethau dosbarth lle gallan nhw rannu syniadau a gwybodaeth am y dulliau a'r mathau o gyfathrebu a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Bydd ymweliadau â chanolfan addysg gwasanaeth amddiffyn priodol sydd â gwisg swyddogol yn galluogi'r dysgwyr i arsylwi a defnyddio gwahanol ddulliau a mathau o systemau cyfathrebu. Gall siaradwyr gwadd fod yn ddefnyddiol hefyd, i roi gwybodaeth i'r dysgwyr am gyfathrebu effeithiol mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a gallu rhoi cyfathrebu effeithiol ar waith.

**Nod dysgu D: Cymhwyso sgiliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth mewn cyd-destunau gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.**

Yn achos y nod dysgu hwn, bydd y dysgwyr yn elwa o drafodaethau dosbarth lle gallan nhw rannu syniadau a gwybodaeth am arweinyddiaeth ac adolygu perfformiad mewn tasgau tîm.

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm a gallu rhoi sgiliau ar waith er mwyn arwain y tîm yn effeithiol a chynnal adolygiadau o aelodau'r tîm, yn ogystal ag o'u gallu eu hunain fel arweinydd.


 © Pearson Education Limited 2022

## Model asesu

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Archwilio arddulliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td><td>A1 Mathau o dimau mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>A2 Nodweddion a manteision tîm effeithiol yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>A3 Arddulliau arweinyddiaeth</td><td rowspan="2">Cyflwyniad ar fanteision arddulliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.</td></tr>
<tr><td>B Archwilio theorïau a thechnegau a ddefnyddir ar gyfer datblygu timau effeithiol yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td><td>B1 Theorïau datblygu tîm<br>B2 Cymhwyso technegau adeiladu tîm mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>B3 Rhagweld a goresgyn rhwystrau i waith tîm effeithiol</td></tr>
<tr><td>C Arddangos defnydd o ddulliau a systemau cyfathrebu sy’n berthnasol i’r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td><td>C1 Dulliau a mathau o gyfathrebu<br>C2 Cyfathrebu mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol</td><td>Cofnod tyst neu arsylwi i arddangos defnydd o ystod o dechnegau cyfathrebu mewn sefyllfaoedd gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.<br>Cefnogir hyn ag adroddiad ysgrifenedig ar fanteision a defnyddiau’r technegau cyfathrebu yng nghyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.</td></tr>
</table>

| Nod dysgu | Meysydd cynnwys allweddol | Dull asesu a argymhellir |
|---|---|---|
| **D** Cymhwyso sgiliau gwaith tîm ac arweinyddiaeth mewn cyd-destunau gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. | **D1** Sgiliau ar gyfer aelodaeth effeithiol o dîm mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>**D2** Sgiliau ar gyfer arwain tîm yn effeithiol mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol<br>**D3** Tasgau allweddol sy'n gysylltiedig ag arwain tîm<br>**D4** Adolygu perfformiad fel aelod tîm neu arweinydd tîm mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol | Tystiolaeth ffotograffig a/neu fideo o gyfranogiad, ochr yn ochr â chofnod tyst a/neu arsylwi o gyfranogi mewn gweithgareddau adeiladu tîm ac arweinyddiaeth sy'n efelychu sefyllfa gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.<br>Cefnogir hyn gan adolygiad ysgrifenedig ar weithgareddau'r tîm, yn amlygu beth aeth yn dda a'r meysydd ar gyfer gwelliant. Dylid cynnwys asesiadau cymheiriaid yma. |

## Canllawiau asesu

Mae’r asesiad a argymhellir ar gyfer yr uned hon yn cynnwys tri aseiniad. Mae’r aseiniad cyntaf yn canolbwyntio ar Nodau dysgu A a B, yr ail ar Nod dysgu C, a’r trydydd ar Nod dysgu D.

Ar gyfer yr aseiniad cyntaf, gallech ofyn i’r dysgwyr baratoi cyflwyniad ar fanteision arddulliau arweinyddiaeth gwaith tîm a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Ar gyfer aseiniad dau, dylai’r dysgwyr fod yn rhan o weithgareddau meithrin tîm ac arweinyddiaeth sy’n efelychu sefyllfa yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol, lle gallant arddangos defnydd o ystod o dechnegau cyfathrebu. Dylid cofnodi tystiolaeth o hyn gan dyst neu ar ffurf cofnod arsylwi. Dylai’r dysgwyr hefyd gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig ar fanteision a defnyddiau’r technegau cyfathrebu mewn cyd-destun gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol.

Ar gyfer y trydydd aseiniad, dylai’r dysgwyr gynhyrchu adolygiad ysgrifenedig ar weithgareddau’r tîm, yn amlygu beth aeth yn dda a meysydd i’w gwella. Dylid cynnwys asesiadau cymheiriaid yma.

Dylai’r dysgwyr ddangos dealltwriaeth o wahanol nodweddion dulliau o ymdrin â gwaith tîm ac arddulliau arweinyddiaeth a ddefnyddir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Dylent roi peth gwybodaeth am nodweddion a manteision gwaith tîm effeithiol. Gallai’r dysgwyr esbonio pwysigrwydd technegau adeiladu tîm mewn gwasanaethau amddiffyn cyferbyniol sydd â gwisg swyddogol, gan gyfeirio at ddamcaniaethwyr cydnabyddedig.

Yna dylai’r dysgwyr arddangos eu sgiliau cyfathrebu trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a systemau, megis llafar, wyneb yn wyneb, neges radio, e-bost a chyfryngau cymdeithasol. Dylent ddethol dulliau a systemau cyfathrebu priodol i’w defnyddio mewn gwahanol achosion/ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Dylai’r dysgwyr ddangos ffyrdd y gallant wella’u defnydd o’r dulliau a’r systemau cyfathrebu.

Ar gyfer y nod dysgu terfynol, dylai’r dysgwyr ymgymryd â rolau fel aelod o’r tîm ac arweinydd tîm mewn rhai gweithgareddau. Fel aelod o’r tîm, dylent weithio’n gymwys yn eu rôl, ond troi at arweinydd y tîm am gyfarwyddyd. Dylai eu hadolygiad gynnwys gwybodaeth gyffredinol am y gweithgareddau y buont yn cyfranogi ynddynt. Dylent dynnu sylw at rai o’r sgiliau y buont yn eu harddangos fel aelod o’r tîm ac fel arweinydd tîm, a chyfeirio’n gryno at adborth a gawsant, gan roi enghreifftiau o ble gallan nhw wella.

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 1: Dinasyddiaeth ac Amrywiaeth
- Uned 6: Y Llywodraeth a'r Gwasanaethau Amddiffyn
- Uned 10: Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored a'r Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 11: Sgiliau Alldeithiau
- Uned 19: Datblygiad Proffesiynol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol.

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae Briffiau Aseiniad Awdurdodedig a chymorth pellach ar gael yma BTEC Nationals | Uniformed Protective Services (2020) | Pearson qualifications

**Cyfnodolion**

*Fire*

*Health Service Journal*

*Police Review*

*Navy News*

*RAF News*

*Soldier*

**Gwefannau**

Mae enghreifftiau o dasgau gorchymyn/weithgareddau adeiladu tîm ar gael yma:

Gwefan Byddin Prydain https://www.army.mod.uk/who-we-are/army-engagement-group/

Mind Tools – https://www.mindtools.com/pages/article/newTMM_52.htm

Command Tasks – https://www.teambuilding.co.uk/command-tasks.html


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022